## Joseff o Arimathea

**Darllen Mathew 27:57–66**

Cymerodd Joseff y corff a'i amdói mewn lliain glân, a'i osod yn ei fedd newydd ef ei hun, yr oedd wedi ei naddu yn y graig. Yna treiglodd faen mawr wrth ddrws y bedd ac aeth ymaith (Mathew 27:59–60).

Dylwn fod wedi gwneud mwy, rwy'n gwybod hynny,
fy rhodd dila o fedd, rhy ychydig, rhy hwyr.
Dylwn fod wedi ymateb pan allwn –
cyhoeddi fy nghariad, fy nheyrngarwch,
tra'i fod yn dal yn fyw.
Ond wnes i ddim, naddo,
enillodd ofn y dydd.

Gallwch gydymdeimlo, does bosib?
Roedd fy ngyd-Phariseaid yn casáu Iesu, cofiwch,
felly roedd cael eich gweld gydag ef,
heb sôn am gael eich galw yn gefnogwr,
yn golygu trwbl gyda 'T' fawr;
gwrthodiad o leiaf,
yr un dynged ag ef, mwy na thebyg.

Felly, beth newidiodd, rwy'n eich clywed yn gofyn?
Beth barodd i mi,
a fu'n ddistaw cyhyd,
ddangos fy ochr,
a mentro'r cyfan er mwyn dyn oedd wedi hen farw?
Dyna'r peth chi'n gweld.

Doedd dim angen iddo fod wedi marw,
os nad oedd yn dymuno hynny,
oherwydd roedd Duw gydag ef yn fwy na neb,
ond cynigiodd ei fywyd yn wirfoddol,
mewn hunanaberth,
yn sicr y gallai newid y byd am byth.

Dydw i ddim yn gwybod sut,
na pham,
ond mi wn i hyn:
allai neb fod wedi fy ngharu i yn fwy,
na rhoi cymaint
mor rhad.
Sut allwn i beidio ag ymateb?

**Gweddi:**
Crist ein Gwaredwr,
gwyddom na allwn ddiolch yn ddigonol i ti am yr hyn a wnaethost,
na'th foliannu ddigon am helaethrwydd dy ras
a dyfnder dy gariad,
ond cadw ni rhag defnyddio hynny'n esgus am beidio â'th anrhydeddu
fel y dylem.

Helpa ni i ddangos ein diolchgarwch drwy'r hyn ydym:
calonnau'n agored i ti,
meddyliau'n dy geisio,
geiriau'n dy gyhoeddi
a gweithredoedd yn dy wasanaethu.
Er mor annheilwng ydym,
cynorthwya ni i barchu dy enw,
a hyrwyddo dy deyrnas –
i ymateb yng ngwir ystyr y gair.
Amen.

***Nick Fawcett, addasiad Olaf Davies***